**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 5

(*a gyflwynwyd gan adran 33*)

## Y CATEGORÏAU O BERSON Y CANIATEIR EU HYCHWANEGU AT ATODLEN 6

| ***Colofn 1*** <br> ***Cofnod*** | ***Colofn 2*** <br> ***Person/Categori*** |
|---|---|
| (1) | Awdurdodau cyhoeddus. |
| (2) | Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac a gafodd eu sefydlu drwy ddeddfiad. |
| (3) | Personau wedi eu sefydlu drwy offeryn uchelfreiniol— <br> (a) i hybu dysg a gwybodaeth drwy addysgu neu ymchwilio neu drwy ddatblygu neu ddyfarnu cymwysterau, <br> (b) i gasglu neu ddiogelu gwybodaeth gofnodedig, neu wrthrychau a phethau sy'n hybu dealltwriaeth, neu ddarparu mynediad at yr wybodaeth honno neu at y gwrthrychau a'r pethau hynny, <br> (c) i gefnogi, gwella, neu hybu treftadaeth, diwylliant, chwaraeon neu weithgareddau hamdden, neu ddarparu mynediad atynt, <br> (d) sy'n ymgymryd â hybu gwybodaeth ehangach am Gymru a chynrychioli buddiannau Cymru mewn gwledydd eraill, neu <br> (e) sy'n ymgymryd â bancio canolog. |
| (4) | Personau y mae swyddogaethau darparu gwasanaethau i'r cyhoedd wedi eu rhoi iddynt neu wedi eu gosod arnynt drwy ddeddfiad. |
| (5) | Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol— <br> (a) pan fo'r person hwnnw wedi cael arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol, neu <br> (b) pan fo penderfyniad wedi ei wneud y bydd yn cael arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol. |
| (6) | Personau sy'n goruchwylio rheoleiddiad proffesiwn, diwydiant neu gylch cyffelyb arall o weithgaredd. |
| (7) | Darparwyr tai cymdeithasol. |
| (8) | Personau sy'n cydsynio i gael eu pennu yn Atodlen 6. |

*Cofnod (5): diwygio drwy orchymyn*

1 (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio cofnod (5) yn y tabl drwy gyfnewid y swm perthnasol am unrhyw swm arall heb fod yn llai na £400,000.

(2) Yn is-baragraff (1), ystyr "swm perthnasol" yw'r cyfanswm o arian cyhoeddus sydd o bryd i'w gilydd wedi ei nodi yng nghofnod (5) yn y tabl.

*Cofnod (8): dehongli etc*

2 At ddibenion cofnod (8) yn y tabl—

(a) ystyr "cydsyniad" mewn perthynas â pherson yw cydsyniad ysgrifenedig a roddir i Weinidogion Cymru gan y person;

(b) caniateir tynnu cydsyniad yn ôl, ond dim ond os yw Gweinidogion Cymru yn cytuno i hynny.

*Dehongli*

3 Yn yr Atodlen hon—

ystyr "arian cyhoeddus" ("*public money*") yw—

(a) arian y perir ei fod ar gael yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy—

(i) Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(ii) Gweinidogion Cymru;

(iii) Senedd y DU;

(iv) Gweinidogion y Goron; neu

(v) un neu ragor o sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd;

(b) arian a ddarperir yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad;

ystyr "awdurdod cyhoeddus" yw pob awdurdod cyhoeddus sy'n dod o fewn ystyr "public authority" yn adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998.